OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 3093 (Cy.267)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud	- -	*23 Tachwedd 2004*
Yn dod i rym	- -	*24 Tachwedd 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 24 Tachwedd 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio Rheoliadau

2. Diwygir Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2001(**2**) fel a ganlyn —

(a) yn rheoliad 2(2)(a)(ii), ar y diwedd yn lle "a" rhodder "neu";

(b) yn is-baragraff (9)(a) o reoliad 4 mewnosoder ar y dechrau —

"yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ynglŷn â chyfrifo sylfaen y dreth gyngor ym mharagraff 22 o Atodlen 2";

(c) yn Atodlen 1 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod) yn unol â Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(ch) yn Atodlen 2 (Swyddogaethau a all fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly) yn unol â Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(d) yn Atodlen 3 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod yn unig) yn unol â Rhan 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2000 p.22.

(**2**) O.S. 2001/2291 (Cy.179) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002 O.S. 2002/783 (Cy. 84) a Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003 O.S. 2003/153 (Cy.23).

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
23 Tachwedd 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.